***Beth yw'r astudiaeth hon?***

Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil o ffordd newydd o helpu pobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â nifer o wasanaethau a reolir gan Gyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd yr astudiaeth yn ein helpu i wybod a yw ein dull newydd yn well o ran helpu pobl ifanc.

Mae'r daflen hon ar eich cyfer chi i'w chadw. Darllenwch hi'n ofalus a chymerwch amser i benderfynu a ydych am gymryd rhan ai peidio. Siaradwch â phobl eraill am yr astudiaeth os ydych yn dymuno. Gofynnwch i'r aelod o staff os oes unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall neu os hoffech gael mwy o wybodaeth amdano.

***Beth fydd yn digwydd os byddaf yn cymryd rhan?***

Os ydych yn cytuno i gymryd rhan, gofynnir i chi ddarparu cytundeb ar ffurf caniatâd ysgrifenedig. Bydd cyfrifiadur yn penderfynu ar hap a fyddwch chi'n derbyn y dull arferol o gymorth neu a fyddwch chi'n derbyn y dull newydd.

***Yr Astudiaeth***

Mae'r dull newydd yn cynnwys staff sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i ymgorffori arferion sy'n seiliedig ar drawma yn eu gwaith o ddydd i ddydd gyda phobl ifanc.

Os nad ydych wedi'ch rhestru i dderbyn y dull newydd, bydd unrhyw gymorth a gewch yn aros yr un fath â'r arfer.

Gofynnir i bob person ifanc sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth lenwi holiadur ar ddechrau'r astudiaeth ac eto 6 mis a 12 mis yn ddiweddarach. Fel diolch, byddwn yn rhoi taleb o £20 i chi bob tro y byddwch yn llenwi holiadur, un £20 ar ôl cwblhau'r holiadur ar y dechrau, £20 arall ar ôl cwblhau'r holiadur 6 mis a £20 olaf ar ôl cwblhau'r holiadur 12 mis. Mae'r holiaduron yn ymchwilio i unrhyw ymwneud â throsedd a'ch iechyd. Er mwyn cael dealltwriaeth glir o'r hyn y mae pobl ifanc yn ei feddwl o'r dull newydd, efallai y byddwn yn gofyn i chi gymryd rhan mewn cyfweliad ag ymchwilydd, ond cyn i chi wneud hynny, byddwn yn gofyn am eich caniatâd a gallwch ddweud na os ydych chi eisiau.

***Oes rhaid i mi gymryd rhan yn yr astudiaeth?***

Na. Chi sydd i benderfynu.

Byddwn yn disgrifio'r astudiaeth, yn mynd drwy'r daflen wybodaeth hon gyda chi ac yn ateb eich cwestiynau. Os byddwch yn penderfynu cymryd rhan yn yr astudiaeth, gofynnir i chi lofnodi ffurflen gydsynio.

**Rydych chi'n rhydd i newid eich meddwl ar unrhyw adeg, hyd at y pwynt lle rydyn ni'n dileu unrhyw ddata sy'n adnabod cyfranogwr o'r set ddata; ni fydd angen i chi roi rheswm. Os penderfynwch beidio â chymryd rhan yn yr astudiaeth neu os ydych am dynnu'ch cyfranogiad yn ôl, ni fydd yn effeithio ar y gefnogaeth a gewch gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr nac atgyfeiriadau at unrhyw wasanaethau eraill.**

***Pwy fydd yn cael mynediad at fy ngwybodaeth?***

Bydd yr holl wybodaeth a gesglir amdanoch yn ystod yr ymchwil hwn yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Yr unig bobl fydd yn gallu edrych arni fydd y tîm ymchwil.

Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei storio ar gyfrifiadur sy'n cael ei warchod gan gyfrinair. Ar ôl i ni wneud yr holiadur 12 mis, byddwn yn dileu unrhyw wybodaeth a allai eich adnabod o'n cofnodion. Bydd y data sy'n weddill yn cael ei storio ym Mhrifysgol Caint am 5 mlynedd (ar gyfer gwybodaeth ysgrifenedig) neu 10 mlynedd (ar gyfer data electronig). Ar ddiwedd yr astudiaeth, bydd y data hwn, heb unrhyw beth a allai eich adnabod chi, yn cael ei archifo gan y sefydliad sy'n ariannu'r astudiaeth, sef y Gronfa Gwaddol Ieuenctid.

Mae'r holl staff a sefydliadau sy'n ymwneud â'r ymchwil yn gweithio i'r un rheolau cyfrinachedd â meddygon a nyrsys y gellir ond eu torri, heb eich caniatâd, mewn

amgylchiadau eithriadol iawn. **<u>Fel arfer mae hyn os yw'r ymchwilydd yn gweld neu'n cael gwybod rhywbeth sy'n codi pryder difrifol am eich diogelwch personol.</u>**

***A allaf fod mewn perygl drwy gymryd rhan?***

Mae gan y staff ymchwil a'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r ymchwil hwn lawer o brofiad ac nid ydym yn credu y byddwch yn profi unrhyw niwed o ganlyniad i gymryd rhan yn yr astudiaeth ymchwil hon. Bydd unrhyw awgrymiadau neu gwynion am yr astudiaeth neu sut cawsoch eich trin yn cael sylw gan y prif ymchwilydd, yr Athro Simon Coulton y gellir dod o hyd i'w fanylion cyswllt ar ddiwedd y daflen hon.

***Pwy sy'n ariannu ac yn trefnu'r astudiaeth?***

Ariennir yr astudiaeth gan y Gronfa Gwaddol Ieuenctid ac fe'i noddir gan **Brifysgol Caint**. Mae'r ymyriadau yn cael eu darparu gan staff profiadol sy'n gweithio i Gyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr. Cyn i ni ddechrau'r astudiaeth, gwnaethom ofyn i gorff annibynnol edrych ar yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud i sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn foesol ac yn arfer da.

***Beth sy'n digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth?***

Rydym yn awyddus i sicrhau bod pob person ifanc sy'n rhan o'r astudiaeth yn cael cyfle i helpu i drafod a deall canlyniadau'r astudiaeth. Bydd yn rhoi gwybod i chi am unrhyw gyfleoedd i wneud hyn wrth iddynt godi drwy gydol y cyfnod astudio. Rydym yn hapus i anfon crynodeb o'r ymchwil atoch ar ddiwedd y prosiect. Os hoffech dderbyn hyn, anfonwch e-bost atom gan ddefnyddio'r manylion ar ddiwedd y daflen hon. Bydd canlyniadau'r astudiaeth yn ein helpu i ddeall ffyrdd newydd o helpu pobl ifanc yn y dyfodol. Ni fydd unrhyw un yn cael ei adnabod yn unrhyw wybodaeth neu'r adroddiadau a ysgrifennwyd am yr astudiaeth.

***A fydd yr ymchwil yn fy helpu?***

Ar hyn o bryd, ni allwn addo y bydd yr astudiaeth hon yn eich helpu'n uniongyrchol. Fodd bynnag, bydd yr astudiaeth yn darparu gwybodaeth am sut rydym yn gweithio gyda phobl ifanc yn y dyfodol.

***Diolch...***

Am gymryd yr amser i ddarllen y daflen hon. Gofynnwch unrhyw gwestiynau neu godi unrhyw bryderon sydd gennych am y prosiect. Os byddwch yn penderfynu cymryd rhan, cadwch y daflen hon er mwyn cyfeirio ati yn y dyfodol.

***Staff y prosiect***

Nadine Hendrie, Rheolwr Treial, Prifysgol Caint, 01227 827912, n.hendrie@kent.ac.uk

Yr Athro Simon Coulton, Prif Ymchwilydd, Prifysgol Caint, 01227 824535, S.Coulton@kent.ac.uk

Os oes gennych unrhyw gwynion neu bryderon am y prosiect ymchwil, cysylltwch ar unwaith â:

Mr Andrew Massoura, Swyddog Moeseg a Llywodraethu Ymchwil, Prifysgol Caint, 01227 824797, a.n.massoura@kent.ac.uk

Gellir gweld yr hysbysiad preifatrwydd yma

**Taflen Gwybodaeth Ymchwil: Cyfranogwr**

University of Kent